

e - gylchgrawn Addysg Grefyddol



Erthygl 2



Byddin yr Iachawdwriaeth

Gwell gwneud na dweud!

Actions speak louder than words!

Byddai William a Catherine Booth, sylfaenwyr Byddin yr Iachawdwriaeth yn cytuno 100% â'r geiriau hynny. Yn Gristnogion brwdfrydig yn Llundain yn yr 1800au teimlodd y ddau bod angen mynd â'r ffydd Gristnogol at bobl yn lle disgwyl i bobl ddod i'r capel.



**Salvation Army Founders
Catherine and William Booth**

Roedden nhw hefyd am roi eu ffydd ar waith a rhoi cymorth ymarferol i dlodion y cyfnod trwy ymgyrch o'r enw - - 'soup, soap and salvation'.




A salvation that does not lead to service is no salvation at all.

Catherine Booth

Pa gymorth? - bwyd, cyfle i fod yn lân, cyfle i glywed neges y Beibl, lle i gysgu, help i ferched dorri'n rhydd o buteindra, cefnogaeth i ddiodefswyr trais yn y cartref ac ymgyrch dros amodau gweithio gwell, i'r Match-girls er enghraifft.

SAVE THE POOR MATCH-GIRLS
from "PHOSSY JAW"—a loathsome disease incurred by inhaling poisonous Phosphorus fumes—
BY USING ONLY
SALVATION ARMY MATCHES
which are manufactured under perfectly healthy conditions, absolutely free from health-endangering processes.
HIGHER RATE OF WAGES PAID FOR LABOUR THAN BY ANY OTHER FACTORY.
NOTE.—Ask your Tradesman for **DARKEST ENGLAND SAFETIES**, and take no others. If you cannot obtain them easily, send post card for name of nearest shopkeeper and full particulars to COMMISSIONER CADMAN, 101, QUEEN VICTORIA STREET, E.C.



Send for the new Illustrated Pamphlet on "Match-Makers' Leprosy," which will be forwarded FREE receipt of 1d. stamp, to readers of THE SILVER LINK.

Byddai 'down and outs', pobl oedd yn gaeth i alcohol a morphine, a phuteiniaid, yn cael gofal gan y Booths a'u cyd-weithwyr o dan yr enw The Christian Mission. Newidiodd yr enw i Fyddin yr Iachawdwriaeth yn 1878.


Roedd aelodau Byddin yr Iachawdwriaeth yn gwisgo gwisg lled filwrol gan fod William Booth yn gweld eu gwaith fel brwydr yn erbyn drygioni. Fe oedd y 'General' (Cadfridog), corfflu oedd yr eglwys leol, Swyddogion oedd y gweinidogion, milwyr oedd yr aelodau a 'Blood and Fire' oedd arwyddair yr eglwys (Gwaed Iesu/Tân yr Ysbryd Glân).



Mike Kirby / Salvation Army Motto and Badge

This Photo by Unknown Author is licensed under CC BY-SA 2.0

Yn wahanol i arfer y cyfnod, credai William Booth bod lle cyfartal i ferched yng ngwaith Iesu Grist.





Heddiw

Mae Byddin yr Iachawdwriaeth yn gweithio mewn tua 131 o wledydd. Mae'n cadw at gredoau y prif ffrwd Cristnogol, ond dydy'r sacramentau (Cymun/Bedydd) ddim yn rhan o fywyd y Fyddin.

Mae cerddoriaeth yn bwysig yn addoliad y Sul ac ar y stryd – mae bandiau pres Byddin yr Iachawdwriaeth yn aml yn chwarae carolau adeg y Nadolig,.....



neu'n rhannu'r papur newyddion WarCry!



Un peth anghyffredin yn adeiladau'r Fyddin yw'r trugareddfa (mainc arbennig yn y neuadd addoli) lle mae pobl yn mynd am weddi neu i wneud *proffes*.



Mae'r gwaith gychwynnodd William Booth yn para heddiw - gwaith sydd wedi'i sylfaenu ar ffydd yn Iesu, a'r holl bwynt yw rhoi'r ffydd honno ar waith wrth roi cymorth ymarferol i bobl, waeth pwy ydyn nhw:

- Sefyll i fyny dros bobl fregus
- Ymladd anghyfiawnder
- Ymladd caethwasiaeth fodern
- Helpu'r rhai digartref (trwy unedau Lifehouses), pobl sy'n gaeth i gyffuriau ac alcohol
- Pobl sydd wedi'u dal yn y diwydiant rhyw
- Pobl sy'n wynebu tlodi a dyledion ac angen arweiniad a chymorth
-a llawer mwy.

Os ydych chi am weld Byddin yr Iachawdwriaeth ar waith, gwylwch y ffilm Faith Into Action wrth glicio ar y linc isod

www.bing.com/videos/SalvationArmy_Faith_into_Action_video

Byddin yr Iachawdwriaeth, Caerfyrddin.

<https://www.salvationarmy.org.uk/carmarthen>

Mae Byddin yr Iachawdwriaeth wedi gweithio yn ardal Caerfyrddin ers tua 1885. Daeth y gwaith i ben rhwng 1946 a 1993. Ers 2010, y Capten Neil Duquemin a'i wraig Liz sy'n arwain y gwaith gyda chymorth dau Reolydd, a Cadet ifanc o'r enw Jamie sy'n hyfforddi i fod yn Swyddog (gweinidog).



Capten Neil Duquemin

Yn y Ganolfan yng Nghaerfyrddin mae siop elusen (yn darparu dillad ac angenrheidiau eraill i'r rhai sydd mewn angen / yn gwerthu nwyddau i'r cyhoedd er mwyn codi arian), a siop goffi (yn agored i'r cyhoedd ac yn darparu bwyd i'r digartref ac eraill).



Y drws nesaf i'r siop a'r caffï mae'r ganolfan gymunedol sy'n cynnwys y neuadd addoli a chegin fodern, fawr.



Mae llawer o'r gwaith paratoi prydau wedi stopio dros dro oherwydd Covid-19, ond mae'r gegin yn dal i gynnig pecynnau bwyd a phrydau tecawê am ddim, ac yn gyfle i wahodd pobl am banded a sgwrs un i un. Mae pobl yn fwy parod i ddod i mewn i sgwrsio dros banded a gofyn am gymorth, neu drafod problemau - dyledion, alcoholiaeth, cyffuriau, digartrefedd neu broblemau personol.

Dyma ddywedodd y Capten Neil wrth i mi ei holi.

Ydy'r problemau yng Nghaerfyrddin yn wahanol i'r problemau mewn rhannau eraill o'r DU?

"Na, mae'r problemau yma yn gyffredin i ddinasoedd a threfi eraill. Mae pobl yn teithio i Gaerfyrddin o fannau fel Llundain, er mwyn dianc rhag eu problemau, gan fwriadu byw mewn pabell. Ond mae hynny'n anodd ar unrhyw adeg o'r flwyddyn. Yn aml, maen nhw'n cyrraedd heb gyflenwad o feddyginiaeth bersonol cwbl angenrheidiol. Daw eu problemau gyda nhw i Gaerfyrddin. Does dim hostel yma i helpu gyda digartrefedd. Mae'r ffaith fod y Ganolfan mor weladwy (a drws nesaf i siop fetio) yn golygu bod pobl yn gwybod lle i ddod am help."

Sut ddaethoch chi i fod yn gapten yma?

*"Fe wnes i dyfu fyny yn Guernsey mewn teulu oedd yn rhan o Fyddin yr Iachawdwriaeth, ac fel person ifanc roeddwn i'n aelod mewn bandiau pres. Fe wnes i weithio am 12 mlynedd fel peiriannydd morwrol a gweithiodd fy ngwraig ym myd cyllid a nyrsio cyn i ni deimlo'r alwad i wasanaethu'n amser llawn gyda'r Fyddin. Fe fuon ni'n gweithio yn Merthyr Tudful cyn dod yma. Rydw i'n arwain yr addoliad ac yn arolygu'r gwaith, ond mae gen i galon dros ein cleientiaid, yn arbennig y rhai sy'n dioddef o ddibyniaeth. Tua 30 sy'n dod i addoli. Rydyn ni wedi trio cynnal Ysgol Sul, **Llan Llanast** a gwaith Ieuencid, ond mae gwaith plant yn anodd."*

Oes yna elfen Gymraeg i'r gwaith?

"Dim llawer – dydw i ddim wedi llwyddo i ddysgu'r Gymraeg. Fe wnaethon ni gael rhifyn arbennig Cymraeg o'r WarCry y flwyddyn ddiwethaf. Mae rhai o'n gwirfoddolwyr yn siarad Cymraeg, ac mae hynny'n help achos mae'n haws i rai cleientiaid agor i fyny am eu problemau yn y Gymraeg."

Oes gennych chi neges i'r bobl ifanc fydd yn darllen yr erthygl hon?

"Mae gwaith Byddin yr Iachawdwriaeth yn golygu sefyll i fyny dros bobl sy'n fregus a heb lais. Buaswn i'n annog unrhyw berson ifanc i fod yn ddewr a defnyddio'u llais i siarad dros bobl mewn angen."

Mae Byddin yr Iachawdwriaeth hefyd yn eglwys, ac mae'n gwisg ni'n dangos i bawb pwy ydyn ni – pobl sy'n credu yn Iesu Grist. Mae'n anodd i bobl ifanc heddiw ddangos eu bod nhw'n credu mewn unrhyw beth crefyddol, ond os oes ganddyn nhw ffydd, buaswn i'n annog nhw i fod yn ddewr, a dangos hynny."

Ac yn olaf, buaswn i'n annog unrhyw berson ifanc i edrych i mewn i hanes a gwaith Byddin yr Iachawdwriaeth a meddwl oes lle iddyn nhw yn y gwaith. Eto, bydd angen dewrder, ond mae yna gyfleoedd byd-eang i fod yn rhan o'r gwaith."

Ymlaen i'r dyfodol?

O ddyddiau William a Catherine Booth hyd heddiw, mae'r angen yn parhau, a gweithwyr Byddin yr Iachawdwriaeth yno o hyd i roi eu ffydd Gristnogol ar waith.



Os am ddysgu mwy am Fyddin yr Iachawdwriaeth, cliciwch ar:
<https://www.salvationarmy.org.uk/>